# Effaith ein gwaith: Hydref 2025







**Mae'r Adolygiad Ymarfer Plant sy'n archwilio troseddau Neil Foden yn adroddiad hollbwysig ar gyfer diogelu plant yng Nghymru.**

**Yn fy mhapur effaith chwarterol diweddaraf, rwy'n ystyried ei oblygiadau, y cyd-destun ehangach, ac yn cyflwyno fy ngalwadau am newid.**

**Hefyd yn y rhifyn hwn mae fy ngalwadau i bob plaid wleidyddol cyn etholiad y Senedd: galwadau ar draws 6 maes allweddol sydd â'r potensial i wneud gwahaniaeth cadarnhaol sylweddol i fywydau plant.**

## Lleisiau plant



Mae ein **tîm ymgysylltu** yn rhoi lleisiau plant wrth wraidd ein gwaith, gan glywed barn a phrofiadau o bob cwr o Gymru.

Dros y tri mis diwethaf rydym wedi ymgysylltu â **dros 5000 o blant a phobl ifanc**, wedi gweithio gydag oedolion sy'n cefnogi plant, ac wedi **gwrando ar farn dros 3,000** plant trwy ein holiaduron Mater y Mis.

Yn ystod y tri mis diwethaf rydyn ni wedi clywed barn plant ar:

# Gwisg Ysgol

Atebodd **676 o blant a phobl ifanc** yr holiadur yn unigol, a **583 fel rhan o grŵp**.




**Canfyddiadau Allweddol :**

- Dywedodd 23% o blant fod eu rhieni 'yn ei chael hi'n anodd talu am bethau fel gwisg ysgol, bagiau, a phethau eraill sydd eu hangen arnynt ar gyfer yr ysgol'
- Roedd 35% o ddisgyblion ysgol uwchradd wedi cael stwr am beidio â chael eitem o wisg
- Dywedodd 54% o blant bod hawl iddyn nhw wisgo siwmper nad oedd yn cynnwys logo'r ysgol

***Gallwch <u>ddarllen yr atebion llawn ar ein gwefan.</u>***
Bydd yr atebion yn cyfrannu at waith polisi parhaus y Comisiynydd ar dlodi plant a chost y diwrnod ysgol, sy'n cynnwys galwad am Daliad Plant Cymru newydd i gefnogi teuluoedd.

# Bwyd ysgol – Uwchradd



Atebodd **409 o bobl ifanc yr holiadur** ysgol uwchradd yn unigol, a **370 fel rhan o grŵp**. Gofynnon ni i bobl ifanc am gost cinio ysgol.

**Canfyddiadau allweddol :**

- Ar gyfartaledd, dywedodd pobl ifanc bod angen <u>£5.50</u> y dydd i fwyta'n dda yn yr ysgol
- Dywedodd <u>23% o bobl ifanc nad oes ganddyn nhw ddigon o arian</u> i fwyta'r hyn maen nhw ei eisiau yn yr ysgol
- Dywedodd <u>35%</u> eu bod wedi cael eu <u>gwrthod cinio</u> oherwydd bod eu cyfrif wedi bod mewn dyled
- Allan o <u>21 o athrawon</u> a atebodd y cwestiwn *'Ydy staff erioed wedi dod â bwyd i mewn i ddisgyblion na allent fforddio bwyta?'*, <u>dywedodd 8</u> bod staff wedi gwneud hyn yn y gorffennol.

**Bydd y Comisiynydd yn parhau i alw ar Lywodraeth Cymru i ariannu prydau ysgol am ddim i ddisgyblion ysgolion uwchradd yng Nghymru, ac am Daliad Plant Cymru newydd i ddarparu rhagor o gymorth ariannol i deuluoedd. <u>Darllenwch ganlyniadau llawn yr adroddiad</u> ar ein gwefan.**

# Bwyd Ysgol - Cynradd


Atebodd **558 o blant** yr holiadur ysgol gynradd yn unigol, a **638 fel rhan o grŵp.**

Gweithion ni â Synnwyr Bwyd Cymru a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru i ofyn i blant am eu hoff lysiau. Bydd yr atebion yn helpu Synnwyr Bwyd Cymru yn eu gwaith o gael mwy o lysiau lleol ar blatiau cinio ysgol.

Gallwch ddarllen atebion plant ar ein gwefan.

childcomwales.org.uk

## Gwaith cyfranogiad ar draws pob awdurdod lleol



Mae ein tîm wedi bod yn brysur yn ymweld ag awdurdodau ledled Cymru i glywed am sut maen nhw'n cefnogi cyfranogiad ystyrlon yn eu hardaloedd. Mae'n rhan o'n gwaith ledled Cymru ihyrwyddo arfer da, a hefyd i amlygu rhwystrau a phroblemau cyffredin.

ae wedi bod yn bleser clywed am yr ystod o waith rhagorol sy'n digwydd ledled y wlad, ac yn werthfawr dysgu mwy am y rhwystrau i gyfranogiad, gan gynnwys trafnidiaeth a phwysau ar adnoddau.

Erbyn mis Rhagfyr, byddwn wedi cyfarfod â phob un o'r 22 awdurdod lleol. Byddwn yn cyhoeddi adroddiad yn rhannu'r hyn rydyn ni wedi dysgu yn y gwanwyn.

# Hyfforddiant hawliau

Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales

Mae ein **tîm cyfranogiad** wedi bod yn brysur yn arwain hyfforddiant i amryw o sefydliadau yn ddiweddar gan gynnwys: Cwtch Addysg ym Mhowys, Tŷ Hafan ym Mhenarth a myfyrwyr Gofal Cymdeithasol ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Dyma beth oedd gan y tîm i'w ddweud:

*'Rydyn ni wir yn mwynhau ac yn gwerthfawrogi'r cyfle i gwrdd â hyfforddi ymarferwyr sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc ym mhob maes. Rydyn ni gallu addasu ein hyfforddiant i gyd-fynd â'ch sefydliad ond mae'r sesiwn bob tro yn cynnwys adolygu Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP), ennill dealltwriaeth gwell o rôl y Comisiynydd a'i Swyddfa yn ogystal â sicrhau digon o amser i drafod a myfyrio ar eich ymarfer eich hun a sut rydych chi a'ch cydweithwyr yn gwneud hawliau'n realiti i'r plant a'r bobl ifanc rydych chi'n gweithio gyda.*


***Beth oedd fwyaf defnyddiol i chi yn yr hyfforddiant?***

**"Adnoddau, syniadau o weithgareddau, adnabod y hawliau a sut mae nhw mor berthnasol i fy rôl i gyda ACRh."**

***Adborth gan un berson***

Os hoffech chi gael gwybod mwy am ein hyfforddiant hawliau sydd am ddim neu os hoffech chi drefnu sesiwn, cysylltwch â ni drwy e-bostio post@childcomwales.org.uk









# Diogelu – ffocws

Ym mis Tachwedd, cafodd yr Adolygiad Ymarfer Plant (CPR) ar gam-drin Neil Foden ei gyhoeddi. **Mae hwn yn foment hollbwysig ar gyfer diogelu plant yng Nghymru.**

Mae CPR  yn dangos yn eglur, er gwaethaf y newidiadau i ddeddfwriaeth a gyflwynwyd ar y cychwyn mewn ymateb i Ymchwiliad Clywch, bod y sefydliadau oedd yno i wneud hynny wedi methu ag amddiffyn plant. Nid yw rhoi rhai o'r canllawiau a'r gweithdrefnau hyn ar waith yn lleol yn ddigon da; nid yw'r trosolwg o weithredu'r canllawiau a'r gweithdrefnau hyn yn ddigon da.

Rydym wedi cyhoeddi darn ar ein gwefan yn edrych ar y cyd-destun, y pryderon, a'r ffordd ymlaen ar gyfer diogelu plant yng Nghymru.

Mae'n cynnwys amserlen o ddatblygiadau ers adroddiad Clywch, a'r galwadau ers hynny gan Gomisiynwyr Plant ac eraill.

DARLLENWCH YR ERTHYGL

# Ein Hadroddiad Blynyddol 2024-25




Rydyn ni'n falch o ddweud ein bod wedi gweld rhai llwyddiannau sylweddol ar draws y tîm ac wedi sicrhau rhai newidiadau pwysig i fywydau plant yn ystod y flwyddyn hon. Mae'r rhain yn cynnwys ffigurau gorau o ymwybyddiaeth ar gyfer y swyddfa; galluogi dros 20,000 o blant a phobl ifanc o bob awdurdod lleol yng Nghymru i gael eu clywed trwy 'Mater y Mis'; sicrhau newidiadau polisi ar gyfer plant sydd â phrofiad o ofal o ganlyniad i'n gwaith cyfranogiad; cefnogi mwy o achosion trwy ein gwasanaeth cyngor a chymorth annibynnol; a sicrhau ymrwymiadau gan Lywodraeth Cymru ynghylch materion gan gynnwys cwynion ysgolion, sydd â'r potensial i wella mynediad plant i'w hawliau.



Rhan hanfodol o'r adroddiad yw ein hargymhellion polisi ar gyfer Llywodraeth Cymru, a drafodwyd mewn Cyfarfod Llawn fis diwethaf. Wrth dderbyn bod blaenoriaethau a heriau cystadleuol, ein barn yw bod rhaid i blant yng Nghymru barhau i fod yn flaenoriaeth i'r Llywodraeth hon. Mae'r hyn rydyn ni'n ei weld a'i glywed yn ei gwneud yn glir fod gormod o blant ledled y wlad yn cael eu methu ac yn cael eu gwrthod o'r cyfle i gyrraedd eu potensial llawn.

Gallwch ddarllen adroddiad blynyddol y Comisiynydd a'i hargymhellion i'r Llywodraeth **yma.**




## Etholiad Senedd 2026 – Manifffesto ar gyfer pleidiau gwleidyddol

Cyn etholiad Senedd 2026, mae'r Comisiynydd yn galw ar bob plaid wleidyddol yng Nghymru i wneud ymrwymiadau yn y meysydd canlynol:

- **Diogelu,** gan gynnwys cyflawni argymhellion IICSA
- **Tlodi Plant,** gan gynnwys Taliad Plant Cymru newydd
- **Addysg,** gan gynnwys adolygiad cynhwysfawr o gyrff llywodraethu ysgolion
- **Trafnidiaeth,** gan gynnwys adolygiad llawn o deithio dysgwyr
- **Hawliau plant,** gan gynnwys ymgorffori hawliau'n llawn yng nghyfraith Cymru

**DARLLENWCH EIN MANIFFESTO**

# Themâu yn ein gwaith achos

Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales

**Mae ein tîm Cyngor yn helpu plant a phobl ifanc yng Nghymru i gael mynediad at eu hawliau dynol.**

Gyda dros 30 mlynedd o brofiad cyfunol o helpu plant a phobl ifanc yng Nghymru i gael mynediad at eu hawliau dynol, mae ein tîm yn gyfarwydd iawn gyda'r materion mwyaf sy'n effeithio ar deuluoedd.

Dros y chwarter diwethaf rydyn ni wedi:

- Cynghori a chefnogi rhieni, gofalwyr a gweithwyr proffesiynol ar draws **pob un o'r 22 awdurdod lleol** yng Nghymru, gan eu helpu gyda materion sy'n effeithio ar hawliau plant
- Ymdrin â **207 o achosion, gyda chyfanswm o 325 o faterion gwahanol.** Mae cyfartaledd o 1.5 mater fesul achos yn dangos cymhlethdod yr ymholiadau rydyn ni'n ei dderbyn - gyda materion yn aml yn cydblethu.

## Prif faterion:

**Anghenion Dysgu Ychwanegol (20%)**

Yn aml, roedd ymholiadau yn ymwneud ag Anghenion Dysgu Ychwanegol yn canolbwyntio ar oedi wrth sicrhau Cynlluniau Datblygu Unigol, anghytundebau am leoliadau addas, a mynediad at ddarpariaeth arbenigol. Yn aml, dywedodd rhieni wrthyn eu bod wedi bod yn anodd dod o hyd i'r wybodaeth sydd ei hangen arnynt. Dywedodd un rhiant wrth ein gweithiwr achos ei bod hi'n teimlo "nad oes neb yn rhoi'r wybodaeth gywir i mi". Yn aml, mae rhieni wedi eu cynhyrfu yn ystod y galwadau hyn, ar ôl ceisio datrys y mater eu hunain yn annibynnol cyn ceisio cyngor gan ein tîm. Yn aml mae rhieni yn ymwybodol o'r gefnogaeth sydd ar gael i blant gydag anghenion dysgu ychwanegol - gan gynnwys eu hawl i ofyn am Gynllun sy'n Canolbwyntio ar y Person (PCP). Mae hyn yn tynnu sylw at fater ehangach, lle mae rhieni'n gyson yn nodi diffyg gwybodaeth ac adnoddau yn ystod galwadau cyngor.

**Addysg (29% o'r holl faterion)**

Mae hyn yn cynnwys rhieni a gofalwyr yn codi pryderon am leoliadau anaddas, bwlio, gwaharddiadau, a chwynion. Roedd hi'n gyffredin hefyd i glywed am blant yn profi problemau iechyd meddwl a lles - yn aml oherwydd bwlio. Y thema mwyaf cyffredin ar gyfer materion addysg oedd cwynion. Roedd llawer o rieni yn cwyno am amserlenni a oedd wedi eu lleihau, anghytundebau â chanlyniadau cwynion, a phryderon am sut mae bwlio yn cael ei drin.

**Gwasanaethau Cymdeithasol (21%)**

Roedd ymholiadau gwasanaethau cymdeithasol yn cwmpasu ystod eang o faterion, gan gynnwys newidiadau lleoliadau, trefniadau cyswllt, a chynllunio gofal. Roedd sawl achos lle mynegodd pobl ifanc neu eu teuluoedd bryder am ddiffyg cyfathrebu neu gyfranogiad mewn penderfyniadau allweddol, yn enwedig mewn perthynas â symud o ofal preswyl neu leoliadau maeth.

# Diolch am ddarllen!

**Byddwn yn cyhoeddi ein 'Effaith ein gwaith' nesaf yn 2026.**


01792 765600

post@childcomwales.org.uk

@childcomwales




Comisiynydd Plant Cymru

Children's Commissioner for Wales